Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

16 Rhagfyr 2019

Diolch i chi am gytuno i ddod i'n cyfarfod ar 20 Tachwedd i gyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â Rhaglen Llywodraeth Cymru i Ddileu TB Buchol a meysydd polisi allweddol eraill yn eich portffolio.

Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch chi i ofyn am eglurhad pellach a/neu gwybodaeth ychwanegol am y materion isod.

**Twbercwlosis Buchol**

*Prynu Gwybodus*

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethom sôn am adroddiadau mai gwybodaeth gyfyngedig a geir am TB mewn arwerthiannau i helpu ffemwyr i wneud penderfyniadau gwybodus wrth brynu. Mae hyn yn digwydd er gwaethaf y cyllid grant sydd ar gael ar gyfer marchnadoedd da byw i wella'u hoffer a'u cyfleusterau, er mwyn arddangos gwybodaeth TB mewn lleoedd amlwg. **Hoffem gael rhagor o fanylion gennych am y meini prawf sydd ynghlwm wrth y grant hwn. Hoffem hefyd ichi roi manylion unrhyw waith a wnaed i asesu a yw'r cyllid hwn wedi arwain at wella'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos mewn marchnadoedd da byw mewn perthynas â TB.**

Yn y Cyfarfod Llawn ym mis Ebrill 2019, fe wnaethoch chi ddweud mai system Prynu Gwybodus wirfoddol fyddai orau yn eich barn chi, ond roeddech hefyd yn ystyried a oes angen cyflwyno cynllun gorfodol. Yn ôl eich tystiolaeth, roeddech chi wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer system orfodol, ar y cyd â DEFRA, a bod hyn yn un o'ch prif flaenoriaethau.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
0300 200 6565

**Byddem yn hoffi ichi adrodd yn ôl ar gasgliadau unrhyw asesiad o'r system Prynu Gwybodus wirfoddol, ac esbonio sut y mae'r rhain wedi dylanwadu at eich penderfyniad i gyflwyno system mandadol.**

**Hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf gennych, ymhen chwe mis, o hynt y gwaith o ddatblygu'r cynigion ar gyfer cynllun gorfodol, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith. Yn ogystal â hyn, hoffem ichi egluro a fyddai angen deddfwriaeth sylfaenol fel rhan o'r newidiadau deddfwriaethol y byddai eu hangen i gyflwyno system orfodol.**

Mae'n amlwg mai newydd ddechrau mae'r gwaith o ddatblygu'r cynigion ar gyfer system orfodol. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymdrechion i hybu cynllun Prynu Gwybodus nes bod system orfodol ar waith. O ystyried hyn, rydym yn croesawu'ch ymrwymiad i ailystyried y mesurau gwirfoddol presennol, i nodi meysydd i'w gwella, ac i ystyried datblygu cod ymarfer, ar y cyd â'r diwydiant. **Hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf gennych, ymhen chwe mis, am hynt y gwaith hwn.**

*Iawndal i ffermwyr*

Nodwn fod tua £14.5 miliwn wedi'i dalu fel iawndal i ffermwyr Cymru rhwng 2018 a 2019, sy'n gynnydd sylweddol ers y blynyddoedd blaenorol. Rydych wedi nodi'n glir bod gwariant ar y lefel hon yn "anghynaliadwy". Fodd bynnag, fe wnaethoch ddweud wrthym fod y system iawndal bresennol yn "deg", yn enwedig o'i chymharu â systemau eraill.

Nodwn eich bod wedi dechrau ar y gwaith o ddewis y ffordd orau o newid y system bresennol. Rydym yn tanlinellu eto bod angen i unrhyw system newydd, neu fersiwn newydd o'r system bresennol, fod yn deg, a bod angen talu iawndal rhesymol am wartheg sy'n cael eu lladd.

**Hoffem ichi ddarparu rhagor o fanylion am ddiben ac amcanion yr adolygiad o'r system iawndal TB bresennol. Hoffem hefyd ichi roi'r w ybodaeth ddiweddaraf inni am yr amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiad, pan ddaw hynny'n gliriach.**

Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo eto i lenwi'r bwlch ariannu ar gyfer Rhaglen Dileu TB Buchol Cymru os bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. **Rydym yn disgwyl ichi barhau i drafod y mater hwn â Llywodraeth newydd y DU ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r trafodaethau hyn cyn gynted ag y cewch chi gyfle i wneud hynny.**

**Amaethyddiaeth**

*Cymorth i ffermydd*

Yn ôl eich tystiolaeth, eich blaenoriaeth chi yw sicrhau bod cymorth i ffermydd yn parhau os bydd y DU yn gadael yr UE. Mae Bil Amaethyddiaeth y DU yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer parhad y Cynllun Taliad Sylfaenol y tu hwnt i 2020. Methodd y Bil â chwblhau ei hynt drwy'r Senedd cyn iddi gael ei diddymu. O ystyried hyn, a'ch penderfyniad i beidio â chyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru tan y Cynulliad nesaf, nid yw'n eglur pa fecanwaith deddfwriaethol rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio i estyn y Cynllun Taliad Sylfaenol i 2021, fel y cyhoeddwyd yn ystod y Ffair Aeaf. **Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro'r sefyllfa fel mater o frys.**

*Defnyddio gwrthfiotigau*

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cawsoch eich holi am y risiau posibl i iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gorddefnyddio gwrthfiotigau yn y diwydiant amaeth. Roedd yn galonogol eich clywed yn dweud bod y diwydiant ffermio a'r proffesiwn milfeddygol yn arwain y ffordd o ran defnyddio gwrthfiotigau mewn modd cyfrifol, a bod targedau 2020 i leihau'r defnydd o wrthfiotigau eisoes wedi'u cyrraedd**. Er gwaethaf hyn, hoffem ichi esbonio polisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio gwrthfiotigau o'r math cryfaf, pan fydd popeth arall wedi methu o ran iechyd pobl. Dylai hyn gynnwys yr amgylchiadau pan ddefnyddir y math hwn o wrthfiotigau a data ar y defnydd ohonynt.**

Mae'r defnydd o wrthfiotigau mewn amaethyddiaeth yn ddarostyngedig i reoliadau'r UE. Rydym yn pryderu am ostyngiad posibl mewn safonau rheoleiddio os bydd y DU yn gadael yr UE, a'r ffaith y bydd iechyd pobl dan fygythiad cynyddol os bydd bacteria sy'n gallu gwrthsefyll gwrthfiotigau yn datblygu.

**Hoffem ichi adrodd yn ôl ar ganlyniad unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r gweinidogion cyfatebol yng ngwledydd eraill y DU ynghylch cynnal y safonau presennol mewn perthynas â defnyddio gwrthfiotigau mewn amaethyddiaeth os bydd y DU yn gadael yr UE.**

**Fframweithiau Cyffredin**

Yn ôl eich tystiolaeth, mae 10 o fframweithiau cyffredin anneddfwriaethol yn eich portffolio, a bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith erbyn diwedd y cyfnod pontio yn 2020. **Hoffem gael rhagor o fanylion am y fframweithiau cyffredin anneddfwriaethol hyn, gan gynnwys gwybodaeth am hynt y gwaith o'u datblygu.**

**Y Cynllun Datblygu Gwledig**

Nodwn mai 41 y cant o'i holl ddyraniad ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig roedd Llywodraeth Cymru wedi'i wario erbyn diwedd mis Awst 2019. Hoffem i chi egluro'r rheswm dros hyn, ac esbonio sut rydych yn bwriadu sicrhau bod y dyraniad cyfan wedi'i ymrwymo erbyn diwedd 2020.

**Pysgodfeydd**

**Hoffem ichi egluro faint o stociau yn nyfroedd Cymru sy'n cael eu hecsbloetio ar lefelau sy'n gyson â chyflawni'r Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy.**

**Hoffem i chi nodi'r camau rydych chi'n eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i fynd i'r afael â'r broblem yn ymwneud ag offer pysgota sy'n cael ei adael, ei golli neu ei daflu ymaith, gan gynnwys opsiynau ar gyfer rheoli pysgota â chewyll (ee trwyddedu) ac atal pysgota anfwriadol (ee tagio potiau a mecanweithiau i helpu pysgod i ddianc).**

**Bioamrywiaeth**

Wrth ateb cwestiwn yn ymwneud â thargedau statudol ar gyfer bioamrywiaeth, a oedd wedi'u cynnwys ym Mil Amgylchedd y DU, fe wnaethoch ddweud wrthym nad oeddech chi o blaid targedau o'r fath oherwydd y "byddent yn tanseilio'r prif amcan o wella bioamrywiaeth yn gyffredinol". **O ystyried bod bioamrywiaeth yn un o feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, a'i hymrwymiad i dargedau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol Aichi, hoffem ichi egluro eich safbwynt ar dargedau bioamrywiaeth.**

**Bridio cŵn**

Rydym yn croesawu eich ymateb cyflym i'r adroddiadau damniol diweddar yn y cyfryngau am safonau lles mewn rhai sefydliadau bridio cŵn, sy'n cynnwys adolygiad brys, i'w gynnal ar unwaith, o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 ('Rheoliadau 2014'). Yn ôl eich tystiolaeth, rydych yn disgwyl i'r grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnal yr adolygiad adrodd yn ôl "erbyn diwedd y flwyddyn".

**Hoffem ichi adrodd yn ôl ar gasgliadau'r adolygiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ichi wneud hynny. Wrth wneud hynny, hoffem ichi egluro a ydych chi'n bwradu diwygio Rheoliadau 2014 yn dilyn yr adolygiad, a darparu amserlen ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau diwygiedig.**

**Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, hoffem ichi ystyried cyflwyno cynllun sicrwydd a / neu system sgorio ar gyfer arolygu sefydliadau bridio cŵn, tebyg i'r system a ddefnyddir yn y diwydiant ffermio a bwyd.**

**Rydym yn ceisio ymrwymiad gennych chi i ystyried cynyddu'r isafswm staff gofynnol mewn perthynas â'r gymhareb rhwng staff a chŵn. Rhaid i'r isafswm staff gofynnol diwygiedig ystyried nifer y cŵn bach, yn ogystal â chŵn llawn dwf, sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau bridio cŵn.**

Gallai gofynion trwyddedu llymach helpu rhywfaint i wella lles anifeiliaid mewn sefydliadau bridio cŵn. Ond rhaid cyflwyno trefniadau archwilio a gorfodi effeithiol ar y cyd â'r rhain. Mae'n galonongol clywed bod trafodaethau eisoes wedi'u cynnal â chynrychiolwyr awdurdodau lleol ynglŷn â'r ffactorau sy'n eu hatal rhag defnyddio mesurau gorfodi. **Fel rhan o'r gwaith hwn, hoffem ichi ystyried cyflwyno cyfyngiad ar nifer y sefydliadau bridio cŵn trwyddedig er mwyn i'r nifer gyfateb i nifer yr arolygwyr yn ardal yr awdurdod lleol.**

**Hoffem ichi adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n atal awdurdodau lleol rhag defnyddio mesurau gorfodi. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw gynigion i sicrhau bod gan awdurdodau lleol drefniadau arolygu a gorfodi effeithiol, ynghyd ag adnoddau digonol.**

**Hoffem ichi ddarparu manylion unrhyw gamau penodol rydych chi'n eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i helpu i ymdrin â bridwyr cŵn didrwydded.**

**Tân gwyllt**

**Hoffem ichi amlinellu unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i leihau'r risgiau i les anifeiliaid sy'n gysylltiedig â defnyddio tân gwyllt.**

Tlodi tanwydd

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor hwn yn cynnal ymchwiliad i dlodi tanwydd yng Nghymru. Er mwyn ein helpu i gynllunio ein gwaith, byddem yn croesawu diweddariad o ran pryd fydd cynllun tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach*, yn nodi ei bod eisoes wedi ymgynghori ar gynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, a'i bod yn disgwyl i'r cynllun hwn gael ei gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2020. Nid ydym yn ymwybodol bod y cynllun drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad.

Hoffem ichi egluro pryd y cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynllun tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru, a chadarnhau pryd fydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.